# Llais y Gofalwr

## Rhan A: Nodiadau'r Hyfforddwr

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## 1 Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Mynegodd y gofalwr rwystredigaeth, chwerwder, anobaith ("plîs paid â'm gadael" yn cael ei anwybyddu).
- Emosiynau: blinder eithafol, dicter, anobaith → Gall lywio'r ymddygiad gofal.
- Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng gofalwr sydd wedi'i lethu gan waith ac un sydd â bwriad i esgeuluso.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pa emosiynau sy'n bresennol yng ngeiriau'r gofalwr?
- Sut allai'r rhain ddylanwadu ar y gofal a roddir?
- Pa gefnogaeth allai leihau'r straen ar ofalwr?

### Gweithgaredd

- Pa emosiynau sy'n bresennol yng ngeiriau'r gofalwr?
- Sut allai'r rhain ddylanwadu ar y gofal a roddir?
- Pa gefnogaeth allai leihau'r straen ar ofalwr?

## 2 Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Pa emosiynau sy'n bresennol yng ngeiriau'r gofalwr?
- Sut allai'r rhain ddylanwadu ar y gofal a roddir?
- Pa gefnogaeth allai leihau'r straen ar ofalwr?

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth fydd y person sy'n derbyn gofal yn ei brofi pan fydd yn cael ei adael ar ei ben ei hun?
- Pa risgiau diogelu sy'n codi?

### Gweithgaredd

**Mapio'r risgiau:** emosiynol, corfforol, diogelu → Blaenoriaethu'r camau gweithredu.

## 3 Diogelu a dyletswydd gofal

- Pryderon diogelu: esgeulustod (bwriadol neu oherwydd diffygiad).
- Dyletswydd gofal: rhaid i weithwyr proffesiynol asesu anghenion gofalwyr yn ogystal â diogelwch y person sy'n derbyn gofal.
- Cydbwyso ymreolaeth gofalwr â hawliau'r person sy'n derbyn gofal.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pryd mae angen i weithwyr proffesiynol ymyrryd?
- Sut gellir cefnogi gofalwyr a sicrhau diogelwch.

### Gweithgaredd

**Gweithdy cynllunio achos:** dylunio cynllun gofal sy'n rhoi seibiant, cefnogaeth, a threfniadau wrth gefn.

## 4 Myfyrdodau proffesiynol

- Dylai gweithwyr proffesiynol ddefnyddio dull llawn chwilfrydedd, nid un o weld bai.
- Mae sgyrsiau agored a diogel yn galluogi gofalwyr i fod yn onest.
- Angen gwirio galluedd y gofalwr a llesiant yr un sy'n derbyn gofal.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech yn dod ar draws y senarios hyn?
- Sut allech chi wirio llesiant y ddau unigolyn?

### Gweithgaredd

- Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech yn dod ar draws y senarios hyn?
- Sut allech chi wirio llesiant y ddau unigolyn?

## 5 Penblethau moesegol ac emosiynol

- Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech yn dod ar draws y s enarios hyn?
- Sut allech chi wirio llesiant y ddau unigolyn?

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Sut mae gwahaniaethu rhwng diffygiad ac esgeulustod/cam-drin?
- Sut allai eich emosiynau effeithio ar eich ymateb proffesiynol?

### Gweithgaredd

**Cadw cofnod myfyriol bob dydd ar weithgaredd:** Disgrifiwch eich ymateb emosiynol i Mrs Jackson a sut i'w reoli.

## 6 Dysgu Ymarferol

- Gwasanaethau cymorth: gofal seibiant, cwnsela, grwpiau gofalwyr, cyngor ariannol.
- Mae ymyrraeth gynnar yn atal sefyllfa rhag gwaethygu'n un o esgeulustod/cam-drin.
- Dylai cynlluniau gofal gefnogi'r gofalwr yn ogystal â'r un sy'n derbyn gofal.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pa gamau ymarferol fyddai wedi gwella ymweliad Rachel?
- Sut gellir ymgorffori chwilfrydedd proffesiynol mewn ymarfer bob dydd.

### Gweithgaredd/chwarae rôl

- Pa wasanaethau allai fod wedi helpu yn gynharach?
- Sut allwn ni adeiladu cynlluniau holistaidd ar gyfer gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal?

## Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – Rhan 3/4: dyletswydd i asesu a chefnogi gofalwyr; Rhan 7: diogelu oedolion.
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)** – oedolion mewn perygl o esgeulustod/camdriniaeth
- **Strategaeth Gofalwyr Cymru** – hawl i gael asesiad a chymorth.
- **Siarter Gofalwyr GIG Cymru** – mynediad at gymorth gan y gwasanaethau iechyd.

# Llais y Gofalwr

**Rhan B: Taflen**

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## Nod

**Cydnabod diffygiad ymysg gofalwyr, diogelu'r person sy'n derbyn gofal, a chydbwyso cefnogaeth â diogelu.**

### Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Gofalwr dan straen, yn ddig, wedi blino'n lân.
- Efallai na fydd anghenion cymorth wedi'u diwallu.

### Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Risgiau: niwed corfforol, gofid emosiynol, esgeulustod.
- "Paid â'm gadael i" = yr angen am sicrwydd a diogelwch.

### Diogelu a dyletswydd gofal

- Gall diogelu gael ei ysgogi gan esgeulustod (bwriadol neu'n gysylltiedig â straen).
- Cydbwyso ymreolaeth gofalwyr â hawliau'r person sy'n derbyn gofal.

### Myfyrdodau proffesiynol

- Defnyddio dull llawn chwilfrydedd, nid un o weld bai
- Cychwyn sgyrsiau diogel gyda'r gofalwr a'r un sy'n derbyn gofal.

### Penblethau Moesegol ac Emosiynol

- Diffygiad yn erbyn esgeulustod.
- Gall emosiynau gweithwyr proffesiynol ddylanwadu ar yr ymateb.

### Dysgu ymarferol

1. Archwilio'r straen ar ofalwr.
2. Asesu diogelwch y person sy'n derbyn gofal.
3. Cynnig seibiant a gwasanaethau cymorth.
4. Datblygu cynllun gofal sy'n cefnogi'r ddau dan sylw.
5. Monitro ac adolygu'n rheolaidd.

### Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 –** Rhan 3/4: dyletswydd i asesu a chefnogi gofalwyr; Rhan 7: diogelu oedolion.
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) –** oedolion mewn perygl o esgeulustod/camdriniaeth
- **Strategaeth Gofalwyr Cymru –** hawl i gael asesiad a chymorth.
- **Siarter Gofalwyr GIG Cymru –** mynediad at gymorth gan y gwasanaethau iechyd.